Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yng nghanolfan Caeathro nos Lun, 30/7/12 i wrando ar gyflwyniad gan Mr Dave Homes ar y datblygiad arferthedig yng Nglyn Rhonwy.
Daeth dros hanner cant i'r cyfarfod—y mwyafrif ohonynt yn drigolion sydd yn byw ar ochr y ffordd sydd yn arwain o Snowdonia Fire Protection i fyny am Cefn Du.
Eglurodd Dave Homes mai cynllun i storio trydan yw cynllun pwmpio a storio.Yn Nglyn Rhonwy bydd y system yn defnyddio'r egni trydanol i bwmpio'r dŵr i'r chwarel uchaf. Mae'r egni'n cael ei storio drwy adael i'r dŵr aros yno. Yna wrth adael i'r dŵr lifo i lawr drwy'r tyrbin, mae egni'r dŵr sydd yn disgyn yn cael ei droi yn ôl yn drydan a gellir ei ddefnyddio pan fydd y galw mwyaf am drydan.
Bydd angen argae 20m ar y chwarel uchaf ac argae 15m ar y chwarel isaf; twneli i symud y dŵr i fyny ac i lawr ac adeilad tyrbin â chysylltiad i'r grid.Bydd y cwmni yn malu gwastraff llechi ar y safle i'w ail-ddefnyddio yn y gymysgedd goncrit fel bod yr adeiladu yn ymdoddi i'r cefndir.
Disgwylir i'r broses adeiladu fod rhwng 3 a 5 mlynedd ond dim ond yn y misoedd cyntaf y bydd llwythi llydan yn mynd ar hyd y ffordd a hynny wedi ei drefnu ymlaen llaw.Yna bydd y rhain yn aros ar y safle nes bydd y gwaith wedi ei gwbwlhau.Bydd disgwyl gweld dau lwyth yn mynd i fyny yn ddyddiol ac yn dychwelyd i lawr yn wag yn y dechrau ac yna un llwyth yn ddyddiol am gyfnod.
Pryder y bobl oedd yn bresennol oedd y peryg i'w tai a'u heiddo.

Gadawodd Cynghorwyr y Cyngor Cymuned y cyfarfod gan adael i'r cyhoedd holi a thrafod eu pryderon gyda Dave Homes.

**CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR**
**COFNODION CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR 30/7/12**
**A GYNHALIWYD YNG NGHAPEL CAEATHRO**

**Presennol** : Cynghorwyr Gwilym. O. Williams (Cadeirydd)
Edgar Owen
Eurig Wyn
Eurwyn Griffith
Doug Jones
Cadi Jones

1 **Croeso'r Cadeirydd :** Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol ac yn arbennig y ddau aelod newydd sef Eurwyn Griffith a Doug Jones.

2 **Ymddiheuriadau :** Bryn Jones

3 **Cyflwyniad Prosiect Glyn Rhonwy gan Dave Holmes :** Cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefnu ac yna gadawodd y Cynghorwyr yr ystafell ar ôl gofyn eu cwestiynau. Arhosodd y gweddill yno i gael sesiwn o holi a thrafod gyda D.H.

**4 Datganiad yr aelodau yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad :** Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr "Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau"

5 **Seddi Gwag :** Mae un sedd wag yng Nghaeathro o hyd er fod hysbyseb wedi bod yn yr Herald am rhywun i gynrychioli'r pentref ar ôl i Clive James adael.Nid oedd Sally Burns nag Alun Ellis wedi ymateb i ohebiaeth y clerc.

6 **Gerddi Bach :** Doedd y cais cyntaf am grantiau ddim digon manwl ond mae cais arall am grant wedi ei gyflwyno.

7 **Derbyn Cofnodion 20.06.12 :** EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir a GW yn eilio.

8 **Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 20.06.12**

Materion Caeathro

Dal i aros caniatad un tirfeddianwr i osod gamfa ar llwybr Llety i Ysbyty.

Materion Waunfawr

Dal i ddisgwyl i'r gwaith gael ei wneud ar y llwybr o Pant Gwyn i ffordd yr ysgol.

**Arwyddwyd ....................................................... Dyddiad ..............**

9) **Adroddiadau :**

a) **Llochesi Bws**—Tony Brown i ddechrau ar y gwaith o lanhau'r lloches bws ger yr hen bost ar Awst 1af yn hytrach na Gorff. 1af.

b) **Pwyllgor y Fynwent –**heb gyfarfod i drafod ffioedd claddu am y flwyddyn nesaf.

c) **Llwybrau—**dim

10 **Cynllunio :** dim

11 **Gohebiaeth :**

a)Llythyr gan Pritchard Jones Lane parthed toiledau cyhoeddus Waunfawr.

Gan fod y cyngor

*yn bwriadu prynu'r toiledau awgrymwyd fod y cyngor yn trefnu ymchwiliad annibynnol ar y toiledau rhag ofn fod problemau yno e.e. asbestos.

***** yn bwriadu rhoi lês ar y tir y tu cefn i'r toiledau i Bwyllgor Cae Chwarae Gerddi Bach rhaid i'r cyngor benderfynnu pa rent sydd i'w dalu a faint fydd hyd y lês.

Penderfynwyd trafod yr ohebiaeth hon yn fanwl yn y cyfarfod nesaf.

b) Newyddion Tai Eryri

c)Adroddiad Hacker Young — archwiliad

ch)Adran Strategol a Gwella—cynllun cyfieithu ar y pryd am gost o tua £50.00 yr awr.Penderfynwyd y byddai o fantais mewn cyfarfod cyhoeddus.

d)Parc Cenedlaethol Eryri — Ymgynghoriad Cyhoeddus :

Nodiadau canllawiau Cynllunio Atodol Drafft :

*Arallgyfeirio ar fferm

*Llety Ymwelwyr.

dd) Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol — yn rhoi rhaglen waith priffyrdd am fis Gorff. 2012

*Lôn Smithy—gwaith Arwisgo

*Waunfawr—gwaith selio llwybrau

e) Antur Waunfawr—gwerthfawrogi'r cyfle o gael trafod y gwasanaeth newydd o gasglu ac ail ddefnyddio 'r dillad a thecstiliau.

f) Adran Rheoleiddio — Troed Ffordd ger Teras Glynafon. Bydd yr Adran yn creu astudiaeth ddichonoldeb ac yna bydd aelodau'r cyngor Cymuned yn defnyddio'r ddogfen hon i ymgynghori gyda thrigolion Teras Glynafon

**Arwyddwyd ................................................ Dyddiad ......................**

ff) Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd. — Problem cŵn yn y pentref—Bydd y Warden yn cynnal patrolau ychwanegol yn y gymuned i fonitro’r broblem o gŵn yn baeddu. Os gwêl unrhyw un broblem cysylltwch â Clive Price ar 01286 679 720. Ond mae problemau cŵn peryglus yn fater i’r Heddlu.

12)**Materion Ariannol :**

1)Arian wedi ei dalu allan — dim yn ychwanegol ers y cyfarfod diwethaf.

2)Arian a dderbyniwyd — £400.00—ffi claddu

3)Anfonebau i’w talu — £255.00 G.R.Services<br>£260.00 Cyflog Clarc Awst

13) **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf :** Medi 5ed yn y ganolfan Waunfawr.

14) **Materio Aelodau Unigol :**

**Y Cyng E.W. —** Nodi fod cefn Stad Tŷ Hen yn dywyll iawn ac nad oes goleuadau addas yno.Penderfynwyd llythyru i fynegi fod aelodau’r Cyngor Gymuned yn bryderus iawn am y sefyllfa at

Gwyn Morris Jones<br>Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefi, Cyngor Gwynedd

**Y Cyng D.J. — Nodi fod plant yn taflu cerrig ar y tir ar hen safle** Whiteways ac yn tynnu sylw’r aelodau fod hyn yn beryglus.

Penderfynwyd llythyru at

Ian Trefor, Garage Elim, Llangefni

ac at

Adran Iechyd a Diogelwch, Cyngor Gwynedd yn mynegi fod aelodau’r Cyngor Cymuned yn bryderus am ddiogelwch y cyhoedd.

**Arwyddwyd ........................................ Dyddiad ..............................**